GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

## Rhagolwg

Mae gemau rhagolwg yn ffordd wych a hwyliog o ryngweithio â'ch plentyn. Mae hefyd yn helpu eich plentyn i sylweddoli y gall ei weithredoedd gael effaith arnoch chi, gan ei annog i ddechrau gofyn.

Unwaith i chi ddechrau chwarae'r gemau hyn, bydd eich plentyn wrth ei fodd â'r ailadrodd, ac yn gofyn am eu chwarae'n rheolaidd.

### Beth ddylwn i ei wneud?

- Helpwch y plentyn drwy oedi yn ystod **arferion cyfarwydd** fel y gall ddangos i chi ei fod yn gwybod beth sydd nesaf.
- Gwnewch eich hun yn rhan o'r broses a **chaniatáu amser** ar gyfer y disgwyl.
- Arweiniwch ac yna **oedi/aros** i'r plentyn ymateb.
- Rhowch ddigon o amser i'ch plentyn ymateb a gadewch fylchau yn eich siarad fel y gall eich plentyn roi cynnig ar rai synau neu




### Cofiwch...

- Arferion dyddiol.
- Hwiangerddi.
- Chwaraewch gemau pobl fel, **'pi-po!'** neu **cuddio**.
- Canwch hwiangerddi gyda'ch gilydd, fel, **Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi, rownd a rownd yr ardd** a **fe aeth y mochyn bach i'r**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

SCAN ME

Gemau barod, Cer!

www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

### Sut?

**Adeiladwch gyffro drwy ddweud '…Barod...' a gadewch fwlch i'ch plentyn ymateb cyn dweud 'CER!'**

### Rhoi hynny ar waith

- Cofiwch gynnwys eich plentyn mewn arferion cyfarwydd, yr un pethau rydych chi'n eu gwneud bob dydd. Ceisiwch **ychwanegu cân** i rai o'r gweithgareddau hyn, bydd eich plentyn yn mwynhau'r ailadrodd a bydd yn dysgu beth sy'n dod nesaf.
- **Gemau Barod, Cer!** – anogwch eich plentyn i eistedd ac aros am CER!
  **Blociau adeiladu, rholio car, swigod.**
- Caneuon gweithrediadau a straeon – oedwch cyn diwedd y frawddeg ac aros.
  **"Mae'r olwynion ar y …"**

### Symud ymlaen…

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod chi'n hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch gyflwyno rhai **Gwrthrychau cyfeirio.** Efallai llwy i gynrychioli amser cinio neu allwedd i gynrychioli amser mynd adref. Maen nhw'n arwydd o beth sy'n mynd i ddigwydd.